

Ymgynghoriad ar yr Oedran Ymddeol Gorfodol Barnwrol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi ymgynghoriad, sy'n cau ar 16 Hydref, yn gwahodd sylwadau ar gynigion i godi'r oedran ymddeol gorfodol i ddeiliaid swyddi barnwrol i naill ai 72 oed neu 75 oed.

I weld y ddogfen ymgynghori ewch i <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/judicial-mandatory-retirement-age/>.

Yr oedran ymddeol i'r rhan fwyaf o ddeiliaid swyddi barnwrol yw 70 oed, a deddfwyd ynglŷn â'r oedran hwnnw 27 o flynyddoedd yn ôl. Diben ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw ystyried a fydd oedran ymddeol gorfodol o 70 oed yn parhau i gyflawni'r amcan o gydbwyso'r gofyniad i sicrhau digon o arbenigedd barnwrol i fodloni'r galwadau ar lysoedd a thribiwnlysoedd gyda'r angen i wella amrywiaeth farnwrol a diogelu annibyniaeth ein barnwriaeth a chynnal hyder ynddi.

Mae cwmpas ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys y swyddi barnwrol hynny y mae gosod eu hoedran ymddeol gorfodol yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Senedd y DU yn unig. Nid yw'n cynnwys swyddi barnwrol datganoledig, a chyfrifoldeb llywodraethau pob gweinyddiaeth ddatganoledig yw ymgynghori ar gynigion i godi'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer eu deiliaid swyddi barnwrol eu hunain. Yng Nghymru, y swyddi barnwrol perthnasol yw Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac aelodau barnwrol pob un o'r Tribiwnlysoedd hynny.

Efallai eich bod wedi gweld ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder eisoes, ac wedi ymateb iddo, ond er hynny byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cael eich sylwadau ar y cynigion i godi'r oedran ymddeol gorfodol ac ar y cwestiynau fel y'u nodwyd yn nogfen ymgynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac yn benodol eich barn o ran y swyddi barnwrol datganoledig: Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac aelodau barnwrol pob un o'r Tribiwnlysoedd hynny.

A fyddech cystal ag anfon eich ymatebion i CAUMailbox@gov.wales erbyn 5.00pm ar 30 Tachwedd, 2020.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich ymatebion fel sail i ymgysylltu â llywodraethau eraill y DU o ran gweithredu mewn perthynas â'r cynigion i godi'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol.